Adroddiad i'r	**Pwyllgor Craffu Perfformiad**
Dyddiad y cyfarfod	**27 Ebrill 2023**
Aelod / Swyddog Arweiniol	**Y Cynghorydd Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol** **Nicola Kneale, Pennaeth Dros Dro Gwella Busnes a Moderneiddio**
Pennaeth Gwasanaeth	**Nicola Kneale, Pennaeth Dros Dro Gwella Busnes a Moderneiddio**
Awdur yr Adroddiad	**Heidi Barton-Price, Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad**
Teitl	**Adolygiad y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, Chwefror 2023**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y wybodaeth ddiweddaraf am adolygiad mis Chwefror 2023 o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I ddarparu gwybodaeth am yr adolygiad diweddaraf o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ar y diwygiadau i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol (Atodiad 2), yn cynnwys statws pob risg yn ôl ein Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg (Atodiad 3), ac yn nodi'r ddogfen gryno y gall yr Aelodau a swyddogion ei defnyddio, sy'n cynnwys statws lliwiau a thueddiadau (Atodiad 1).

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Yr Uwch Dîm Arwain, ynghyd â'r Cabinet, sy'n datblygu ac yn berchen ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Caiff ei hadolygu ddwywaith y flwyddyn gan y Cabinet yn ystod sesiwn friffio'r Cabinet.

4.2. Yn dilyn pob adolygiad, caiff y gofrestr ddiwygiedig ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a'i rhannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

4.3. Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf ym mis Medi 2022. Mae'r papurau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ar gael ar-lein.

4.4. Defnyddiwyd datganiad parodrwydd i dderbyn risg y Cyngor yn y trafodaethau a gafwyd gyda pherchnogion risg, ac mae ein lefel risg (yn seiliedig ar y sgôr) wedi'i dadansoddi o fewn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol (Atodiad 2).

4.5. Yn ystod yr adolygiad diweddaraf, mae nifer o ddiweddariadau wedi bod o ran perchnogion, teitlau, disgrifiadau a chamau gweithredu ar risgiau. Nid oes unrhyw newidiadau wedi bod i sgoriau'r risgiau. Mae'r newidiadau hyn wedi cael eu gwneud i'r gofrestr risgiau ac wedi'u nodi ar ddechrau pob risg yn Atodiad 2. I grynhoi, mae'r newidiadau mwyaf yn cynnwys:

4.6. Risg 01: Y risg o wall diogelu neu ymarfer difrifol lle mae cyfrifoldeb ar y Cyngor, a fyddai'n arwain at niwed difrifol neu farwolaeth: Mae'r Cynghorydd Julie Matthews wedi'i dynodi'n Aelod Arweiniol ychwanegol, ar ôl trafodaeth mewn sesiwn friffio'r Cabinet am y cysylltiadau rhwng y risg hon a recriwtio.

4.7. Risg 21: Y risg nad yw partneriaethau a rhyngwynebau effeithiol rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ddinbych (CSDd) yn datblygu, gan arwain at wahaniaeth sylweddol rhwng cyfeiriad strategol a gweithredol Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ddinbych: Mae'r Cynghorydd Gill German wedi'i hychwanegu fel Aelod Arweiniol ar gyfer y risg hon. Mae sgôr y risg wedi'i hadolygu ar ôl i BIPBC gael eu rhoi mewn mesurau arbennig ac nid yw wedi newid ar yr adeg hon.

4.8. Risg 36: Y risg bod yr amgylchiadau economaidd ac ariannol yn gwaethygu y tu hwnt i ddisgwyliadau cyfredol ac yn cael effaith niweidiol ar fusnesau lleol: Mae'r risg hon wedi'i hadolygu ac mae'r teitl wedi'i newid i ganolbwyntio ar yr effaith ar fusnesau lleol. Mae Risg 37 yn canolbwyntio ar galedi economaidd ar

gyfer y gymuned leol a'n hymateb ni fel un o nifer o bartneriaid sy'n gweithio i leihau anghydraddoldeb ac amddifadedd.

4.9. Risg 50: Y risg y bydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu elw o ofalu am blant sy'n derbyn gofal yn arwain at gyflenwad ansefydlog neu anaddas o leoliadau. Mae geiriad Saesneg y risg wedi newid o *'Looked After Children'* i *'Children Looked After'*.

4.10. Mae perchnogion risgiau 12, 37, a 50 wedi newid.

4.11. Parodrwydd i dderbyn risg: Ar hyn o bryd, mae risgiau 1, 6, 13, 18, 21, 27, 33, 34, 36, 44 a 45 yn anghyson â Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor (Atodiad 3). Mae gennym gyfanswm o 20 risg ac mae 11 ohonynt y tu hwnt i'n parodrwydd i dderbyn risg (55%).

4.12. Yn dilyn pob adolygiad, caiff y gofrestr ddiwygiedig ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a'i rhannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Diben y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yw amlygu digwyddiadau posib' yn y dyfodol a allai gael effaith niweidiol ar allu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion, gan gynnwys ei flaenoriaethau corfforaethol. Mae'r camau rheoli a gweithredu a amlygir felly yn hanfodol i gyflawni Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae costau datblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau cyfredol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cofnodi risgiau sydd wedi'u canfod, a'r camau lliniaru. Nid yw'r broses o ddatblygu ac adolygu'r ddogfen ei hun yn cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r nodau lles. Fodd bynnag, dylid cynnal asesiad o effaith ar les ar gyfer unrhyw broses, strategaeth neu bolisi newydd sy'n cael eu llunio o ganlyniad i gam lliniaru.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cynhaliwyd trafodaethau unigol gyda Pherchnogion Risgiau (y Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol) gan gynnwys mewnbwn gan swyddogion sy'n arwain ar gamau pellach er enghraifft.

8.2. Ceir trafodaeth wedyn am y gofrestr gyda'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, yr Uwch Dîm Arwain a'r Cabinet, mewn sesiwn friffio'r Cabinet, i gytuno ar a/neu wneud mwy o newidiadau.

8.3. Mae'r gofrestr wedi'i diweddaru wedyn yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad a'i rhannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi wrth ddatblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

10. Beth yw'r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r adolygiad hwn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu swyddogaethau a chyfrifoldebau uwch swyddogion ac yn nodi bod rhaid i weithdrefnau a phrosesau clir fod yn eu lle i reoli risg yn effeithiol.

11.3. Mae Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi pwerau Craffu mewn perthynas ag edrych ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor, un ai gan y Cabinet neu ran arall o'r Cyngor